

Y Gwobrau ²⁰²⁰ The Accolades

Pecyn gwybodaeth gwobr Gofalwn Cymru

Oes gennych chi weithiwr gofal sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd?

Neu ydych chi'n gweithio gyda neu'n adnabod rhywun rydych chi'n meddwl sy'n gwneud gwahaniaeth trwy'r gofal a chymorth maent yn eu darparu?

Os felly, rydym ni am glywed wrthoch chi gan ein bod ni am gydnabod, dathlu a rhannu'r effaith gadarnhaol y mae'r gweithwyr hyn yn eu cael ar fywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae'r wobwr Gofalwn Cymru yn Wobr newydd ar gyfer gweithwyr gofal cyflogedig neu wirfoddolwyr sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Gallent weithio yn y sector cyhoeddus, annibynnol neu wirfoddol, a gallent weithio mewn unrhyw rôl. Gallent, er enghraifft, weithio mewn cartref gofal, gofal yn y cartref neu feithrinfa.

Y peth pwysig yw eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ac yn eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Ar gyfer 2020, rydym ni'n chwilio am weithwyr gofal sy'n:

- cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu wasanaethau'r flynyddoedd cynnar a gofal plant
- gweithio gyda phobl i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis iaith.

Darllenwch ymlaen i ddysgu fwy am y wobwr a sut y gallwch chi enwebu gweithiwr gofal.

Cynnwys

Beth yw'r wobr Gofalwn Cymru?.....	3
Pwy ellir ei enwebu?.....	3
Pwy all enwebu gweithiwr gofal?.....	3
Pam ddylwn i enwebu gweithiwr?.....	4
Sut ydw i'n enwebu?.....	5
Sut y bydd y wobr Gofalwn Cymru'n cael eu beirniadu?.....	5
Dyddiadau pwysig.....	5
Rheolau ymgeisio.....	6
Cyhoeddusrwydd.....	7
Beirniadu.....	7
Y seremoni a'r gwobrwyo.....	8

Beth yw'r wobwr Gofalwn Cymru?

Mae'r wobwr Gofalwn Cymru yn Wobr sy'n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu ymarfer rhagorol gan weithwyr neu wirfoddolwyr ym maes gofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant ledled Cymru.

Yn 2020, bydd y wobwr Gofalwn Cymru'n cael ei dyfarnu i weithwyr gofal cyflogedig neu wiroadolwyr sy'n:

- cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu wasanaethau'r flynyddoedd cynnar a gofal plant
- gweithio gyda phobl i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis iaith.

Disgwylir i bob gweithiwr sydd wedi'i enwebu ar gyfer y wobwr Gofalwn Cymru cyrraedd y safonau ymddygiad ac ymarfer gofynnol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol fel y nodir yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* (y Côd).

Bydd y beirniaid yn defnyddio'r Côd fel meincnod wrth benderfynu pa weithwyr gofal i'w llunio ar y rhestr fer, felly mae rhaid i bawb a enwebir gwybod ac ymarfer yr ymddygiad y mae cyflogwyr, cydweithwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, gofalwyr a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl ganddynt.

Gallwch lawrlwythor'r Côd yn:

gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/cod-ymarfer-proffesiynol-gofal-cymdeithasol

Pwy ellir ei enwebu?

Mae'r wobwr Gofalwn Cymru yn agored i unrhyw weithiwr gofal cyflogedig neu wirfoddolwr sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, neu flynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Gall y gweithwyr gofal enwebedig weithio yn y sector cyhoeddus, annibynnol neu wirfoddol, a gallant weithio mewn unrhyw rôl. Gallent, er enghraifft, weithio mewn cartref gofal, gofal yn y cartref neu feithrinfa. Gall y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt fod yn breswyl neu'n gymunedol, yn fawr neu'n fach. Gallant fod yn gweithio gyda phlant, oedolion neu ofalwyr.

Y peth pwysig yw eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ac yn eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Pwy all enwebu gweithiwr gofal?

Gall enwebwyr fod yn gydweithiwr, yn gynghorydd hyfforddi neu'n gyflogwr i'r gweithiwr gofal, neu rywun sy'n derbyn gofal a chymorth ganddynt, eu gofalwr, ffrindiau neu aelodau o'r teulu.

Mae rhaid i'r enwebydd fod yn gyfarwydd â gwaith y gweithiwr gofal a gallu cadarnhau ei fod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl trwy'r gofal a chymorth y maent yn eu darparu.

Pam ddyfwn i enwebu gweithiwr gofal?

Mae'r wobwr Gofalwn Cymru yn gyfle i arddangos y gwaith rhagorol y mae gweithwyr gofal yng Nghymru yn ei wneud, ac i rannu ymarfer gorau gydag eraill.

Mae'r gofal a chymorth y mae'r gweithwyr yn eu darparu hefyd yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o ofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant i'r cyhoedd.

Mae llawer o fanteision i enwebu gweithiwr gofal.

Ar gyfer y gweithiwr gofal:

- cydnabod eu cyflawniadau
- dangos a rhannu ymarfer da
- cynyddu eu morâl a'u hymdeimlad o falchder
- cynyddu eu hyder.

Ar gyfer y sector:

- dysgu o syniadau newydd a'u rhannu
- cydnabod gweithwyr, cyflawniadau ac ymarfer da
- dangos yr effaith gadarnhaol ar fywydau pobl
- bod yn ystyriol o gydraddoldeb, amrywiaeth a dewis ieithyddol wrth ddiwallu anghenion pobl
- gwella'r ddelwedd o ofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant.



Sut ydw i'n enwebu gweithiwr gofal?

Mae'n hawdd enwebu gweithiwr gofal:

1. Lawrlwythwch ffurflen enwebu'r wobwr Gofalwn Cymru o:
gofalcymdeithasol.cymru/gwobrau2020
2. Atebwch bob cwestiwn.
3. Peidiwch â mynd dros y cyfyngiad geiriau.
4. Darllenwch y canllaw hwn cyn llenwi eich ffurflen enwebu. Esboniwch pam mae'r gweithiwr gofal yn haeddu cael ei gydnabod a sut maen nhw wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl maent yn eu cefnogi. Sicrhewch eich bod yn cynnwys cymaint o dystiolaeth â phosib gan gynifer o wahanol bobl a sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gweithiwr gofal. Dylai hyn gynnwys pobl a gefnogir gan y gweithiwr gofal neu eu gofalwyr, ffrindiau ac aelodau o'u teulu, lle bo hynny'n bosibl.
5. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen ac yn deall rheolau'r wobwr.
6. Llenwch y ffurflen enwebu a'i hanfon yn ôl i ni erbyn **5pm, 15 Tachwedd 2019**.

Gweler y rheolau a'r amodau ar dudalen 6 i gael mwy o wybodaeth.

Sut bydd y wobwr Gofalwn Cymru'n cael eu beirniadu?

Bydd y beirniadu'n digwydd mewn dwy ran. Bydd panel o feirniaid yn cytuno ar restr fer o enwebeion ac yna bydd y cyhoedd yn cael ei wahodd i bleidleisio dros y gweithiwr y maen nhw'n credu dylai ennill y wobwr.

Mae panel y beirniaid yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau gofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Dyddiadau pwysig

Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau	5pm, 15 Tachwedd 2019 – nodwch os gwelwch yn dda, ni fyddwn yn derbyn enwebiadau ar ôl y dyddiad cau
Cyhoeddi'r rhestr fer	16 Rhagfyr 2019
Ffilmio'r rhai ar y rhestr fer	13 Ionawr tan 7 Chwefror 2020
Pleidlais gyhoeddus ar agor	24 Chwefror tan 20 Mawrth 2020
Cyhoeddi'r enillydd yn seremoni wobrwyo brynhawn yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd	23 Ebrill 2020

Rheolau'r wobr

- Nid oes tâl am ymgeisio
- Mae'r wobr Gofalwn Cymru yn agored i unrhyw weithiwr gofal cyflogedig neu wirfoddolwr sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru
- Rhaid i chi ateb bob cwestiwn ar y ffurflen enwebu
- Rhaid i ryw faint o'r gwaith y cyfeiriwyd ato yn y ffurflen enwebu wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf
- Rhaid i'r gweithiwr gofal enwebedig fod yn gweithio yn unol â'r safonau ymddygiad ac ymarfer fel y nodir yn y [Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#)
- Dim ond gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen enwebu y bydd y beirniaid yn ei hystyried
- Rhaid i chi gadw o fewn y cyfyngiadau geiriau – ni fyddwn yn ystyried unrhyw enwebiadau sy'n mynd dros y cyfyngiadau geiriau
- Ni ystyrir unrhyw ddeunyddiau ychwanegol gan y beirniaid
- Rhaid i chi ddarparu manylion cyswllt llawn i chi a'r enwebai
- Rhaid i chi sicrhau bod gennych chi ganiatâd yr enwebai i'w henwebu cyn cyflwyno'r ffurflen
- Gellir ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi ar y ffurflen enwebu i hyrwyddo'r wobr Gofalwn Cymru a'r Gwobrau
- Ni dderbynnir unrhyw enwebiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad ac amser cau
- Ni fyddwn yn anfon cadarnhad i chi o dderbyn eich enwebiad
- Ni fydd modd dychwelyd eich ffurflen enwebu i chi.

Rhaid i chi gyflwyno eich enwebiad erbyn **5pm dydd Gwener, 15 Tachwedd 2019**.

Cyhoeddusrwydd

- Rhaid i chi a'r person rydych chi'n ei enwebu cytuno i'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen enwebu gael ei defnyddio i ddibenion hyrwyddo a hysbysebu'r wobwr Gofalwn Cymru a'r Gwobrau, ac i rannu ymarfer nodedig a helpu eraill i ddysgu ym maes gofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Byddwn yn gwneud ffilm fer o bob un o'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol, a fydd yn cael ei dangos yn y seremoni wobrwyo. Mae'n debygol y bydd y ffilmio'n digwydd rhwng Ionawr a Chwefror 2020, a bydd disgwyl i bawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol i fod ar gael ar gyfer ffilmio. Bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael mwy o wybodaeth a syniad o ddyddiad y ffilmio pan gyhoeddir pwy sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol
- Gallai bob un o'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol gael cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru.

Beirniadu

- Bydd rhestr fer yn cael ei ddewis gan y panel o feirniaid
- Rhaid i aelodau'r panel beirniadu beidio bod ag unrhyw gysylltiad â'r gweithwyr gofal a enwebwyd ar gyfer y wobwr Gofalwn Cymru
- Ni all y trefnwyr a'r beirniaid gohebu â'r ymgeiswyr ynglŷn â'r broses feirniadu
- Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni chychwynnir gohebiaeth ynglŷn â'r penderfyniad
- Bydd pleidlais gyhoeddus yn penderfynu'r enillydd.

Y seremoni a'r gwobrwyo

- Dylai enwebeion ac enwebwyr fod ar gael i fynychu'r seremoni wobrwyo prynhawn ar 23 Ebrill yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd
- Bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael gwybod sawl lle fydd ganddyn nhw yn y seremoni wobrwyo
- Cyflwynir tlws i'r enillydd a rhoddir dystysgrif i bawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol
- Disgwylir i'r enillwyr a'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol dderbyn y wobwr neu'r dystysgrif mewn person
- Bydd angen i'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol roi gwybod i'r trefnwyr o flaen llaw os na allant fynychu ac enwi cynrychiolwyr a all dderbyn y tlws neu'r dystysgrif ar eu rhan
- Bydd mynychwyr yn gyfrifol am eu costau teithio a llety eu hunain
- Nid oes unrhyw wobwr ariannol na gwobr gyfatebol
- Os daw'n amlwg bod un o'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol neu eu henwebydd wedi torri'r rheolau, cyn neu ar ôl i'r wobwr Gofalwn Cymru gael ei chyflwyno, mae gan y beirniaid hawl i ddiarddel y gweithiwr. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid dychwelyd y tlws a/neu'r dystysgrif yn brydlon.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government